YSGOL Y SANTES FAIR
– YSGOL YR EGLWYS YNG NGHYMRU A GYNORTHWYIR
POLISI DERBYN 2010-2011

Mae Ysgol y Santes Fair, Ysgol yr Eglwys yng Nghymru sy'n ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir, yn derbyn disgyblion rhwng 3 ac 11 oed.

Fel Ysgol Yr Eglwys yng Nghymru a Gynorthwyir Corff Llywodraethol yr Ysgol sy'n gyfrifol am dderbyn disgyblion. Gellir cael ffurflen dderbyn gan yr Ysgol. Dilynir amserlen derbyn yr Awdurdod Lleol o ran dosbarthu, llenwi a dychwelyd y ffurflenni hyn.

Mae Deddf Diwygio Addysg 1988 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethol dderbyn disgyblion hyd at y nifer derbyn, onibai y byddai gwneud hynny yn anghyson â gwarchod natur nodweddiadol yr ysgol.

Gwnaiff yr ysgol ystyried ceisiadau hwyr mewn achosion lle rhoir rheswm dilys. Mae'r rhain yn cynnwys pan fo rhiant sengl wedi bod yn sâl am gryn gyfnod, neu pan fo teulu newydd symud i'r ardal, neu'n dychwelyd o dramor, cyn belled ag y bo'r ceisiadau hyn yn cyrraedd cyn cynnig lleoedd i ddisgyblion.

Bydd rhieni'n cael eu hysbysu'n ysgrifenedig ynghylch pob cais i dderbyn lle.

Derbynnir disgyblion i'r dosbarth Meithrin, sy'n rhan o'n dosbarth Blynyddoedd Cynnar, yn y flwyddyn academaidd pan fyddont yn bedair oed – h.y. gellir derbyn unrhyw blentyn sy'n dair oed erbyn 31 Awst yn y mis Medi dilynol. Mae'r ddarpariaeth Meithrin yn ddarpariaeth statudol; serch hynny, nid yw'n addysg orfodol. **Nid** yw derbyn lle yn y Meithrin yn gwarantu lle yn y dosbarth Derbyn. Os oes gan blentyn le yn ein dosbarth Meithrin rhaid cyflwyno'r ffurflen gais briodol am le yn y dosbarth Derbyn yn unol ag amserlen y cylch derbyn blynyddol.

Derbynnir disgyblion i'r dosbarth Derbyn yn y flwyddyn academaidd y byddont yn bump oed h.y. gellir derbyn unrhyw blentyn sy'n cyrraedd pedair oed erbyn 31 Awst yn y mis Medi dilynol.

Rhoir blaenoriaeth i 'blant sy'n derbyn gofal'. Mewn achos lle bo mwy o geisiadau nag o leoedd bydd y Llywodraethwyr yn derbyn y disgyblion sy'n bodloni'r gofynion cyfreithiol a'r ddeddfwriaeth gyfredol orau.

Bydd plant o'r gymuned sipsiwn a theithwyr neu grwpiau teithiol yn cael eu trin yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif 003/2008 'Symud Ymlaen – Addysg Sipsiwn a Theithwyr'.

Ni fydd yr ysgol yn gwahaniaethu rhwng bechgyn a merched, nac yn gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr ar sail hil, lliw, cenedligrwydd neu darddiad cenedlaethol neu ethnig.

Meini prawf derbyn disgyblion

Mae'r Llywodraethwyr wedi cytuno, mewn achos lle bo mwy o geisiadau am leoedd yn yr ysgol na lleoedd ar gael, y defnyddir y meini prawf isod yn y drefn a nodir isod i benderfynu pa ddisgyblion i'w derbyn.

a) Disgyblion sy'n derbyn gofal sy'n aelodau'r Eglwys yng Nghymru trwy fedydd
b) Disgyblion sy'n derbyn gofal o ffydd eraill
c) Disgyblion y mae eu cyfeiriad cartref y tu mewn i ffiniau plwyf eglwysig Eglwys y Santes Fair, Owrtyn ac Erbistock
ch) Disgyblion â brawd/chwaer a fydd yn parhau i fod yn yr ysgol yn y flwyddyn academaidd nesaf h.y. nid ym Mlwyddyn 6 (gweler y diffiniad brawd/chwaer isod)
d) Disgyblion y mae eu rhieni (gweler y diffiniad isod) yn gysylltiedig ag Eglwys y Santes Fair, Owrtyn
dd) Disgyblion y mae eu rhieni (gweler y diffiniad isod) yn gysylltiedig ag Eglwys Anglicanaidd arall ac mai hon yw'r Ysgol a Gynorthwyir agosaf
e) Disgyblion y mae eu rhieni (gweler y diffiniad isod) yn aelodau gweithgar o enwad Cristnogol nad yw'n Anglicanaidd ac mai hon yw'r Ysgol Eglwys agosaf atynt
f) Disgyblion y mae eu rhieni yn aelodau gweithgar o ffydd arall ac sy'n mynegi eu bod yn dymuno cael addysg Ysgol Eglwys i'w plentyn
ff) Disgyblion eraill

Gallai amgylchiadau meddygol eithriadol (a gefnogir gan dystiolaeth feddygol) oresgyn yr uchod os oes gan yr ysgol y cyfleusterau i ateb anghenion y plentyn.

Noder, os gwelwch yn dda, bydd unrhyw blentyn â datganiad anghenion arbennig lle nodir enw'r ysgol yn cael ei dderbyn cyn defnyddio'r meini prawf uchod.

Yn achos meini prawf d – f bydd y Llywodraethwyr yn gofyn am wybodaeth ynghylch amlder mynychu gwasanaethau ac i ba raddau mae'r rhieni yn ymwneud â gwaith yr eglwys ac yn gofyn i'r offeiriad neu'r gweinidog lleol gadarnhau'r manylion hyn.

Rhoir blaenoriaeth uwch i'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol ym mhob categori. Cyfrifir y pellter gan awdurdod lleol Wrecsam gan ddefnyddio System Wybodaeth Ddaearyddol (GIS) sy'n mesur y pellter llinell syth o'r cyfeiriad cartref i'r ysgol yn fanwl gywir. Os yw'r pellter yn hafal, yn ôl system GIS y Cyngor, er enghraifft, fflat mewn bloc o fflatiau â'r un mynedfa drws ffrynt, gwahaniaethir ar sail lefel llawr y fflatiau.

Diffiniadau

Diffiniad Rhieni

Mae rhieni yn cynnwys yr holl bobl hynny â chyfrifoldeb rhiant am blentyn fel a nodir yn Neddf Plant 1989. Lle bo cyfrifoldeb ar y cyd am blentyn, tybir mai'r unigolyn sy'n derbyn Budd-dal Plant sy'n gyfrifol am lenwi ffurflenni cais, a defnyddir cyfeiriad yr unigolyn hwnnw at ddibenion derbyn disgybl.

Diffiniad brawd/chwaer

Yn achos ceisiadau yn y cylch derbyn arferol brawd/chwaer plentyn yw brawd neu chwaer llawn, llysfrawd neu lyschwaer neu bod y plentyn mewn teulu maeth yn yr un uned deuluol yn yr un aelwyd a chyfeiriad a bod un arall o'r teulu yn mynychu'r dewis ysgol mewn unrhyw grŵp blwyddyn ac eithrio'r flwyddyn olaf. Bydd brawd/chwaer biolegol sy'n mynychu'r dewis ysgol mewn unrhyw grŵp blwyddyn ac eithrio'r flwyddyn olaf yn cael eu trin fel brawd/chwaer waeth lle maent yn preswylio.

Ni fydd plant sy'n byw yn yr un cartref fel rhan o deulu estynedig, megis cefndryd/cyfnitheroed, yn cael eu trin fel brawd/chwaer.

'Cyfeiriad cartref' a 'Chyfeiriad preswyl'

Y Cyfeiriad Cartref fydd y cyfeiriad a ddefnyddir ar gyfer gohebiaeth ar sail lle telir 'Budd-dal Plant'. Mewn achos lle bo amheuaeth am y cyfeiriad cartref, neu lle bo plentyn yn byw mewn dau gartref (teulu wedi gwahanu) neu amgylchiadau perthnasol eraill, rhaid darparu tystiolaeth o'r cyfeiriad cartref i'r ysgol i gadarnhau'r cyfeiriad a ddefnyddiwyd ar y ffurflen gais. Y cyfeiriad cartref fydd y cyfeiriad sy'n cydymffurfio â'r uchod ar y dyddiad cau derbyn ceisiadau a nodwyd gan yr Awdurdod Lleol. Dylai teuluoedd sydd ar fin symud tŷ ddarparu'r isod

i) llythyr cyfreithiwr yn cadarnhau cyfnewid Contractau i gwblhau'r broses o brynu eiddo; neu
ii) copi o'r cytundeb rhentu presennol, wedi'i lofnodi gan y tenantiaid a'r landlord, yn dangos cyfeiriad yr eiddo; neu
iii) yn achos unigolion sy'n gwasanaethu yn Lluoedd Ei Mawrhydi, llythyr swyddogol yn cadarnhau dyddiad eu hanfon i wasanaethu gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, y Swyddfa Dramor a Chymanwlad neu'r Awyrlu (CHQ).

Gefeilliaid, tripledi, genedigaethau lluosog

Pan fo'r Corff Llywodraethol yn ystyried gefeilliaid, tripledi neu enedigaethau lluosog eraill am un lle sy'n weddill, cynigir y lle i'r teulu a gallant benderfynu (a) a fyddant yn ei dderbyn ar gyfer un o'r plant, pa un bynnag maen nhw'n ei ddewis neu (b) gwrthod y lle a bydd yn cael ei gynnig i'r plentyn nesaf yn y drefn ar ôl y gefeilliaid/tripledi/genedigaeth luosog. Noder, ni fyddai'r siblingiaid genedigaeth luosog yn cael blaenoriaeth derbyn ac eithrio cael eu hystyried fel cyswllt brawd/chwaer unwaith y bo'r teulu wedi derbyn y lle(oedd) a gynigiwyd i un o'r efeilliaid/tripledi/genedigaeth luosog.

Bydd rhestr aros yn cael eu llunio os oes mwy o geisiadau am le nag o leoedd yn yr ysgol. Yn dilyn dyrannu lleoedd yn ystod y cylch derbyn arferol, bydd plant yn parhau ar y rhestr aros tan y 31 Awst yn y flwyddyn ysgol y maent yn gwneud cais. Os bydd rhagor o leoedd yn dod yn rhydd tra bo'r rhestr aros mewn grym, rhoir y lleoedd i'r plant ar y rhestr ar sail y meini prawf mwy o geisiadau nag o leoedd uchod.

Os ydych chi'n gwneud cais dan feini prawf d – f uchod gellir cael **Ffurflen Wybodaeth Atodol** gan yr ysgol. Dylid anfon y ffurflen hon yn ôl i'r ysgol cyn diwedd Mawrth. Nid yw'r Ffurflen Wybodaeth Atodol ar ei phen ei hun yn cynrychioli cais am le; rhaid i rieni lenwi'r Ffurflen Gais arferol hefyd.

Apêl derbyn

Mae addysg feithrin yn ddarpariaeth statudol ond nid oes gan rieni unrhyw hawl i apelio dan Ddeddf Addysg 1980 os ydynt yn aflwyddiannus yn cael lle yn y dosbarth Meithrin. Nid yw derbyn lle yn y dosbarth meithrin yn gwarantu derbyn lle yn yr ysgol.

Os nad ydym yn cynnig lle i blentyn yn yr ysgol hon, mae hynny oherwydd y byddai'r cynnydd mewn niferoedd yn cael effaith andwyol ar addysg ein disgyblion presennol. Gall rhieni sy'n anfodlon â phenderfyniad y Corff Llywodraeth i beidio â derbyn plentyn gyflwyno apêl. Os ydych chi'n defnyddio'r hawl hwn, rhaid cyflwyno'r apêl i Glerc Llywodraethwyr yr ysgol.

Ystyrir yr apêl gan Banel Apêl derbyn annibynnol, a weinyddir gan Fwrdd Addysg yr Esgobaeth yn unol â chod ymarfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Apelau Derbyn i ysgol. Bydd y Panel Apêl yn cyfarfod i ystyried pob apêl gan rieni y gwrthodwyd lle i'w plentyn/plant yn ein hysgol ni. Mae pawb yn rhwym i benderfyniad y panel.

Ysgrifennir y polisi hwn yn unol â'r dogfennau isod:

- Cod Derbyn i Ysgolion Cod Statudol Dogfen Rhif: 002/2009, Gorffennaf 2009
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 a 2005
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975
- Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976
- Deddf Cydraddoldeb 2006
- Deddf Diwygio Addysg 1988
- Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988 – yr hawl i rieni fynegi dewis (adran 86(1)) a'r hawl apêl.
- Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006.
- Deddf Addysg 2005 – blaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal
- Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (adran 44) – gwahardd cyfweld rhieni a phlant
- Deddf Addysg 2002 – diddymu'r hawl i gyfyngu derbyn disgyblion ar sail cyfran y plant o'r tu allan i'r grŵp ffydd
- Cyhoeddir canllawiau anstatudol hefyd gan Lywodraeth Cenedlaethol Cymru ac Esgobaeth Llanelwy.

Adolygu

Adolygir y polisi hwn bob dwy flynedd, yn unol â Chynllun Datblygu'r Ysgol, neu ynghynt yn sgîl unrhyw newid mewn deddfwriaeth neu newid mewn amgylchiadau lleol.

FFURFLEN WYBODAETH ATODOL

Yn gysylltiedig â chais am le yn Ysgol y Santes Fair - ysgol gynradd wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru a gynorthwyir

Dylai rhieni lenwi'r ffurflen hon heb fod ynghynt na **3 mis cyn y dyddiad cau derbyn ceisiadau** yna ei rhoi i'w gweinidog, ynghyd ag **amlen â stamp a chyfeiriad yr ysgol** arni. Dylai'r **Gweinidog** ei phostio yn **uniongyrchol** i'r ysgol. Dim ond y rhai sy'n gwneud cais dan y meini prawf d – f (ymwneud ag eglwys) sy'n gorfod llenwi'r ffurflen hon.

Enw a chyfeiriad y plentyn:	
Dyddiad geni:	

Rhowch fanylion am y prif fan addoliad a fynychwyd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. (Os ydych chi'n dymuno i fwy nag un gweinidog gadarnhau'r manylion, rhowch y manylion ar ddalen o bapur ar wahân os gwelwch yn dda.)

Enw'r Eglwys: Enwad yr Eglwys:	
Enw a chyfeiriad llawn y Gweinidog (yn cynnwys cod post):	
Rhif ffôn y Gweinidog:	
Pa aelodau'r teulu sy'n mynd i addoli:	Mam Tad Plentyn / Plant
Os nad yw eich plentyn yn mynd â'i rieni, a yw'n mynd ag oedolion eraill? Os ydyw, rhowch fanylion os gwelwch yn dda	Ydyw Nac ydyw
Am faint rydych chi wedi bod yn mynychu'n rheolaidd?	Llai na 6 mis 6 mis i flwyddyn Blwyddyn i 18 mis Mwy na dwy flynedd Mwy na thair blynedd
Pa mor aml fuoch chi'n mynychu yn ystod y cyfnod hwn, yn arferol?	Unwaith yr wythnos Unwaith bob pythefnos

	Yn fisol / gwasanaeth teuluol
A yw'r plentyn sy'n gwneud cais am le yn yr ysgol yn mynd i'r Ysgol Sul neu Eglwys leuenctid neu ddarpariaeth debyg.	Ydyw Nac ydyw
Rhestrwch holl agweddau eich ymwneud â bywyd a gwaith eich eglwys chi (ac eithrio addoli ar y Sul).	

Llofnod y rhiant:	Dyddiad:

I sylw'r Gweinidog: A fyddech gystal â chadarnhau'r manylion uchod, os gwelwch yn dda. Ychwanegwch unrhyw sylwadau a fyddai'n ddefnyddiol i'r ysgol ddeall ymroddiad Cristnogol y teulu hwn, yn eich barn chi, ac anfon y ffurflen yn ôl i'r Ysgol yn yr amlen a gawsoch chi gan y rhieni. Diolch yn fawr iawn.

Llofnod y Gweinidog:	Dyddiad: